OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 1765 (Cy.154)

IECHYD PLANHIGION, CYMRU

Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Pasbortau Planhigion) (Cymru) 2007

Wedi'u gwneud - -	*19 Mehefin 2007*
Wedi'u gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru	*20 Mehefin 2007*
Yn dod i rym - -	*13 Gorffennaf 2007*

Mae Gweinidogion Cymru, gyda chydsyniad y Trysorlys, yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 56 o Ddeddf Cyllid 1973(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Pasbortau Planhigion) (Cymru) 2007.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 13 Gorffennaf 2007 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "awdurdodiad" ("*authority*") yw awdurdodiad i ddyroddi pasbortau planhigion a roddir o dan erthygl 8 o Orchymyn Iechyd Planhigion (*Phytophthora ramorum*) (Cymru) 2006(**2**) neu, yn ôl y digwydd, o dan erthygl 29 o Orchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006(**3**); a

mae i'r ymadrodd "pasbort planhigion" ("*plant passport*") yr ystyr a roddir iddo gan—

(a) erthygl 2 o Orchymyn Iechyd Planhigion (Phytophthora ramorum) (Cymru) 2006 o ran awdurdodiad o dan y Gorchymyn hwnnw; neu

(b) erthygl 2(1) o Orchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006 o ran awdurdodiad o dan y Gorchymyn hwnnw.

(**1**) 1973 p. 51. Caiff Gweinidogion Cymru arfer y pwer hwn yn rhinwedd adran 59(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 p. 32).
(**2**) O.S. 2006/1344 (Cy.134).
(**3**) O.S. 2006/1643 (Cy.158).